**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU**

# RHEOLIADAU ADDYSG (STAFF PRYDAU BWYD YSGOLION) (CYMRU) 1999

## Cefndir

1. Gan fod darpariaethau Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998 wedi dod i rym mewn perthynas â staff ysgolion, mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth benodol (fel y'u hawdurdodir o dan baragraff 30 o Atodlen 16 i'r Ddeddf) gyda golwg ar benodi, disgyblu, gwahardd dros dro a diswyddo staff prydau bwyd ysgolion.

## Rheol Sefydlog 11.5

2. Ni fernir bod unrhyw faterion yngln â'r Rheoliadau sy'n codi o dan Reol Sefydlog 11.5 y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

## Sylwadau

3. Hwyrach y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a ddylid cynnwys unrhyw un o'r pwyntiau ym mharagraffau 5-7 a 10 yn ei Adroddiad fel sylwadau cyffredinol.

## Y Nodyn Esboniadol

4. Noder – mae'r paragraff olaf yn cyfeirio at y ffaith bod ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig yn cael eu cwmpasu gan y rheoliadau. Mae hyn yn wir oherwydd er nad yw paragraff 30 o Atodlen 16 i Ddeddf 1998 ond yn awdurdodi gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r ysgolion a restrir yn y diffiniad yn rheoliad 1(3), mae paragraff 27(3) o Atodlen 7 i Ddeddf 1998 yn estyn unrhyw reoliadau mewn grym o dan baragraff 30 o Atodlen 16 i ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion arbennig sefydledig os cyflogir staff prydau bwyd ysgolion gan yr awdurdod addysg lleol.

## Dyddiad eu Gwneud

5. Gan fod y rhain yn rheoliadau wedi'i gwneud a'u cyflwyno i'r Pwyllgor o dan RhS 22.26, dylasid mewnosod dyddiad eu gwneud a dyddiad eu dyfodiad i rym.

Noder – ymddengys dyddiad eu dyfodiad i rym yn gywir yn rheoliad 1(1).

**Rheoliad 1(3) "staff prydau bwyd ysgolion"**

6. A bod yn fanwl gywir dylasai "awdurdod" fod yn "yr awdurdod" i gyd-fynd â’r diffiniad cynharach o’r term. Ond peth bach yw hwn.

**Rheoliad 2(2) a 3(2) – y testun Cymraeg**

7. Mae’r darpariaethau yn cynnwys gofynion tebyg iawn. Ond mae testun Cymraeg y gofyniad sy’n cyfateb i’r Saesneg –

   "the authority shall consult"

   yn wahanol bob tro.

   H.y. –

   2(2) . . .rhaid i’r awdurdod ymgynghori â

   3(3) . . .bydd yr awdurdod yn ymgynghori â

8. Gan fod natur y gofyniad yn union yr un fath, buasai cysondeb i’w ddymuno. Gan mai dyletswydd benodol i ymgynghori sy’n cael ei gosod yma, ymddengys "rhaid" yn fwy addas. Gweler, er enghraifft, rheoliad 3(4).

**Rheoliad 3(1)**

9. Noder bod y newid mewn terminoleg o "brydau bwyd" i "giniawau" yn adlewyrchu’r geiriau gwahanol yn adran 512A.

**Llofnod**

10. Gan fod y rhain yn rheoliadau wedi’u gwneud a’u cyflwyno i’r Pwyllgor o dan RhS 22.26, dylasid mewnosod dyddiad y llofnod (h.y. dyddiad eu gwneud) ynghyd â chadarnhad y llofnod.

**J H Turnbull**

Ymgynghorydd Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfau

20 Medi 1999-09-22

Cyf: LAD 01-011 999JT4

LC9

| | |
|---|---|
| **CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU** | **NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES** |
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | **STATUTORY INSTRUMENTS** |

| | |
|---|---|
| **1999 Rhif**<br><br>**ADDYSG, CYMRU** | **1999 No.**<br><br>**<u>EDUCATION, WALES</u>** |
| **Rheoliadau Addysg (Staff Prydau Bwyd Ysgolion) (Cymru) 1999** | **The Education (School Meals Staff) (Wales) Regulations 1999** |
| **<u>NODYN ESBONIADOL</u>**<br><br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)* | **EXPLANATORY NOTE**<br>*(This note is not part of the Regulations)* |
| Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer penodi, disgyblu, diarddel a diswyddo staff prydau bwyd ysgolion a gyflogir i weithio'n unig mewn cysylltiad â darparu prydau bwyd mewn ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion arbennig cymunedol ac iddynt gyllidebau dirprwyedig yng Nghymru. | These Regulations make provision for the appointment, discipline, suspension and dismissal of school meals staff employed to work solely in connection with the provision of meals at community, voluntary controlled and community special schools with delegated budgets in Wales. |
| Yn gyffredinol, yr awdurdod addysg lleol gan ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol dan sylw a fydd yn gyfrifol am benodi, disgyblu, diarddel a diswyddo staff prydau bwyd ysgolion *(rheoliad 2)*. | Responsibility for the appointment, discipline, suspension and dismissal of school meals staff will in general rest with the local education authority in consultation with the governing body of the school concerned *(regulation 2).* |

| | |
|---|---|
| Pan fydd gorchymyn wedi'i wneud o dan adran 512A o Ddeddf Addysg 1996 a bod hwnnw'n gosod dyletswydd ar y corff llywodraethu i ddarparu ciniawau ysgol y telir amdanynt neu'n rhad ac am ddim ond bod y ciniawau ysgol yn cael eu darparu gan yr awdurdod addysg lleol yn unol â chytundeb rhwng y corff llywodraethu a'r awdurdod, yr awdurdod, gan ymgynghori â'r corff llywodraethu, a fydd yn gyfrifol am benodi, disgyblu, diarddel a diswyddo staff prydau bwyd yr ysgol, ond caiff y corff llwyodraethu fynnu bod unrhyw berson yn peidio â gweithio yn yr ysgol *(rheoliad 3)*. | Where an order has been made under section 512A of the Education Act 1996 placing a duty on the governing body to provide paid or free school lunches but the lunches are supplied by the local education authority pursuant to an agreement between the governing body and the authority, responsibility for the appointment, discipline, suspension and dismissal of school meals staff will rest with the authority in consultation with the governing body but the governing body may require any person to cease to work at the school *(regulation 3).* |
| Pan fydd gorchymyn wedi'i wneud o dan adran 512A o Ddeddf Addysg 1996 a bod hwnnw'n gosod dyletswydd ar y corff llywodraethu i ddarparu ciniawau ysgol y telir amdanynt neu'n rhad ac am ddim ac nad oes cytundeb o'r fath wedi'i wneud â'r awdurdod yna bydd paragraffau 20 i 22 a 24 i 29 o Atodlen 16 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gymwys i benodi, disgyblu, diarddel a diswyddo staff prydau bwyd yr ysgol *(rheoliad 4).* | Where an order has been made under section 512A of the Education Act 1996 placing a duty on the governing body to provide paid or free school lunches and no such agreement has been entered into with the authority then paragraphs 20 to 22 and 24 to 29 of Schedule 16 to the School Standards and Framework Act 1998 shall apply to the appointment, discipline, suspension and dismissal of school meals staff *(regulation 4).* |

| | |
|---|---|
| Cymhwysir y Rheoliadau yn rhinwedd paragraff 27(3) o Atodlen 17 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i staff prydau bwyd ysgolion a gyflogir gan awdurdod addysg lleol mewn ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig, neu i staff sydd i'w cyflogi yn y cyfryw ysgolion. | The Regulations are applied by virtue of paragraph 27(3) of Schedule 17 to the School Standards and Framework Act 1998 to school meals staff who are, or are to be, employed by a local education authority at a foundation, voluntary aided or foundation special school. |

| | |
|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | **STATUTORY INSTRUMENTS** |
| **1999 Rhif** | **1999 No.** |
| **ADDYSG, CYMRU** | **EDUCATION, WALES** |
| **Rheoliadau Addysg (Staff Prydau Bwyd Ysgolion) (Cymru) 1999** | **The Education (School Meals Staff) (Wales) Regulations 1999** |
| *Wedi'u gwneud* 1999<br>*Yn dod i rym* 1999 | *Made* . . . . 1999<br>*Coming into force* . . 1999 |

| | |
|---|---|
| Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 54 (1), 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998[(a)] a pharagraff 30 o Atodlen 16 i'r Ddeddf honno, ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru[(b)], mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol: | In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 54 (1), 138(7) and (8) of, and paragraph 30 of Schedule 16 to, the School Standards and Framework Act 1998[(a)] , and now vested in the National Assembly for Wales[(b)] , the National Assembly for Wales makes the following Regulations: |
| **Enwi, cychwyn, hyd a lled a dehongli** | **Citation, commencement, extent and interpretation** |
| **1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Staff Prydau Bwyd Ysgolion) (Cymru) 1999 a deuant i rym ar 1 Medi 1999. | **1.**-(1) These Regulations may be cited as the Education (School Meals Staff) (Wales) Regulations 1999 and shall come into force on 1st September 1999. |
| 2. Dim ond i ysgolion yng Nghymru y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys. | (2) These Regulations apply only in relation to schools in Wales. |
| 3. Yn y Rheoliadau hyn -<br><br>ystyr "yr awdurdod" yw'r awdurdod addysg lleol sy'n cynnal ysgol;<br><br>ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;<br><br>ystyr "Gorchymyn adran 512A" yw gorchymyn o dan adran 512A (1) o Ddeddf Addysg 1996[(a)] sy'n rhoi dyletswydd ar gorff llywodraethu ysgol sy'n cyfateb i | (3) In these Regulations -<br><br>"the Act" means the School Standards and Framework Act 1998;<br><br>"the authority" means the local education authority by which a school is maintained;<br><br>"school" means a community, voluntary controlled or community special school being a school having a delegated budget (within the meaning of Part II of the Act);<br><br>"school meals staff" means persons |

| | |
|---|---|
| ddyletswydd ar yr awdurdod a grybwyllir yn adran 512A(2)(a) o'r Ddeddf honno (dyletswydd i ddarparu ciniawau ysgol) neu adran 512(2)(b) o'r Ddeddf honno (dyletswydd i ddarparu ciniawau ysgol yn rhad ac am ddim);<br><br>ystyr "staff prydau bwyd ysgolion" yw pobl a gyflogir, neu sydd i'w cyflogi, gan awdurdod i weithio mewn ysgol mewn cysylltiad â darparu prydau bwyd yn unig;<br><br>ystyr "ysgol" yw ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig gymunedol a honno'n ysgol ac iddi gyllideb ddirprwyedig (o fewn ystyr Rhan II o'r Ddeddf) | employed or to be employed by an authority to work at a school solely in connection with the provision of meals.<br><br>"section 512A Order" means an order under section 512A(1) of the Education Act 1996[(a)] imposing on the governing body of a school a duty corresponding to a duty of the authority mentioned in section 512A(2)(a) of that Act (duty to provide school lunches) or section 512 (2)(b) of that Act (duty to provide school lunches free of charge). |
| **Penodi, disgyblu, diarddel a diswyddo staff prydau bwyd ysgolion** | **Appointment, discipline, suspension and dismissal of school meals staff** |
| **2.**-(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 3 a 4 a pharagraff (2), bydd yr awdurdod yn gyfrifol am benodi, disgyblu, diarddel a diswyddo staff prydau bwyd ysgolion mewn ysgol. | **2.**-(1) Subject to regulations 3 and 4 and paragraph (2), the authority shall be responsible for the appointment, discipline, suspension and dismissal of school meals staff at a school. |

| | |
|---|---|
| (2) Cyn arfer unrhyw swyddogaeth o dan y rheoliad hwn rhaid i'r awdurdod ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol y mae'r aelod o staff prydau bwyd yr ysgol dan sylw yn gweithio ynddi i'r graddau y gwêl yr awdurdod yn dda. | (2) Before exercising any function under this regulation the authority shall consult the governing body of the school at which the member of school meals staff in question works to such extent as the authority think fit. |
| **Penodi etc. staff prydau bwyd ysgolion mewn ysgolion lle mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am brydau bwyd ysgolion ond bod prydau bwyd yn parhau i gael eu darparu gan awdurdod addysg lleol** | **Appointment etc. of school meals staff at schools where governing body responsible for school meals but meals continue to be provided by local education authority** |
| **3**.-(1) Pan fydd Gorchymyn adran 512A mewn grym, ond bod corff llywodraethu ysgol y mae'r gorchymyn yn gymwys iddo wedi gwneud cytundeb â'r awdurdod y bydd yr awdurdod yn darparu ciniawau yn yr ysgol, yna bydd y paragraffau canlynol o'r rheoliad hwn yn gymwys. | **3.**-(1) Where a section 512A Order is in force, but the governing body of a school to which the order applies have entered into an agreement with the authority that the authority shall supply lunches at the school, then the following paragraphs of this regulation shall apply. |
| (2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), bydd yr awdurdod yn gyfrifol am benodi, disgyblu, diarddel a diswyddo staff prydau bwyd ysgol yr ysgol. | (2) The authority shall, subject to paragraph (4), be responsible for the appointment, discipline, suspension and dismissal of school meals staff at the school. |
| (3) Cyn arfer unrhyw swyddogaeth o dan baragraff (2) bydd yr awdurdod yn ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol i'r graddau y gwêl yr awdurdod yn dda. | (3) Before exercising any function under paragraph (2) the authority shall consult the governing body of the school to such extent as the authority think fit. |

| | |
|---|---|
| • (4) Os bydd y corff llywodraethu yn penderfynu y dylai unrhyw aelod o staff prydau bwyd yr ysgol beidio â gweithio yn yr ysgol rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod o'i benderfyniad a'r rhesymau drosto ac ar hynny bydd yr awdurdod yn mynnu bod y person hwnnw yn peidio â gweithio yn yr ysgol. | (4) Where the governing body determine that any member of the school meals staff should cease to work at the school they shall notify the authority in writing of their determination and of the reasons for it and the authority shall thereupon require that person to cease to work at the school. |
| **Penodi etc. staff prydau bwyd ysgolion mewn ysgolion lle mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am brydau bwyd yr ysgol** | **Appointment etc. of school meals staff at schools where governing body responsible for school meals** |
| **4.**-(1) Pan fydd Gorchymyn 512A mewn grym, ond nad yw corff llywodraethu ysgol y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo wedi gwneud cytundeb â'r awdurdod y bydd yr awdurdod yn darparu ciniawau yn yr ysgol, yna bydd paragraffau 22 a 24-29 o Atodlen 16 i'r Ddeddf yn gymwys i benodi, disgyblu, diarddel a diswyddo staff prydau bwyd ysgolion. | **4.**-(1) Where a section 512A Order is in force, but the governing body of a school to which the Order applies have not entered into an agreement with the authority that the authority shall supply lunches at the school, then paragraphs 20 to 22 and 24-29 of Schedule 16 to the Act shall apply to the appointment, discipline, suspension and dismissal of school meals staff. |
| Awst 1999<br>Y Llywydd<br>Cynulliad Cenedlaethol Cymru | August 1999<br>Presiding Officer<br>National Assembly for Wales |